**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Medi 2013**

## Y PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi diweddariad i Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC).

## Cefndir

2 Nod y PMC yw gweithredu trefniadau gwell ar gyfer cael dull cydgysylltiedig o gydweithio ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau i'w diweddaru am y cynnydd a wneir yn y PMC, ynghyd ag unrhyw gynigion sydd angen cymeradwyaeth benodol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Gwybodaeth

3 Cynhaliwyd pedwerydd cyfarfod y PMC yng ngorsaf dân ac achub Llandrindod ar 30 Gorffennaf 2013, a thrafodwyd y materion canlynol yn y cyfarfod.

4 Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu dull Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru o ymdrin â chydweithio, partneriaeth ac effeithlonrwydd. Roedd y PMC wedi comisiynu'r adolygiad er mwyn cael gwerthusiad o'i berfformiad hyd yn hyn ac er mwyn gwella ei berfformiad yn y dyfodol.

4.2 Daeth Ron Price o Swyddfa Archwilio Cymru i adrodd ar ganlyniad yr adolygiad. Barnwyd i flwyddyn gyntaf y PMC fod yn un gadarnhaol, ac roedd cefnogaeth wedi ei dangos ar lefel wleidyddol a lefel y swyddogion. Roedd hyn wedi ei gwneud yn bosibl i osod trefniadau llywodraethu yn eu lle yn gyflym a dechrau cyflwyno gwelliannau. Argymhellid nawr y dylai'r PMC ganolbwyntio ar chwe phrosiect pwysig, a rheini'n rhai sy'n debygol o arwain at arbedion ariannol a gwella effeithlonrwydd busnes.

5 Cynlluniau Cydnerthedd Effeithiol ar gyfer Argyfyngau Mawr – cyflwynodd Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd yr adroddiad, gan osod gwybodaeth waelodlin a gasglwyd mewn perthynas â gweithrediadau yn y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Ar ôl cymharu'r wybodaeth, tynnwyd sylw at nifer o feysydd lle y gellid gwneud arbedion ariannol, ac mae gwaith wedi dechrau ar ganolbwyntio ar y meysydd hyn.

6 Caffael Cydweithredol Cenedlaethol – cyflwynodd Dirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin ganlyniad yr adolygiad a wnaed ar gaffael. Canlyniad yr adolygiad oedd cytundeb i fynd ati ar y cyd yn y tri GTA i gaffael rhai eitemau ar gyfer y sector tân, cyfarwyddo'r gwaith caffael hwnnw ar lefel strategol, a datblygu tîm caffael rhithiol ar y cyd rhwng y Canolbarth a'r Gorllewin, a'r De.

7 Meysydd ar gyfer Prosiectau TGCh Blaenllaw – daeth Dirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub y De â chynnig i symud ymlaen â phum prosiect pwysig TGCh ar sail cydweithio, gan gynnwys cael systemau Gorchymyn a Rheoli newydd yng Nghymru.

8 I gloi, cadarnhawyd mai'r arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd hyd yn hyn oedd £2.6 miliwn yn y tri Gwasanaeth dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ffigwr hwn yn ychwanegol at yr arbedion a sicrhawyd gan y tri ATA drwy eu prosesau eu hunain o osod eu cyllidebau.

## Argymhelliad

9 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarperir.